

# Beth sy'n achosi'r gorlifiadau?

## Her 1: Llifoedd Mawr ar Adegau Prysur




**Faint mae'r Garthffos yn ei Ddal**





Carthffosydd cyfun sydd yn ardal Llangoed, sy'n golygu bod y llifoedd o geginau a thoiledau'n cael eu cario yn yr un carthffosydd â dŵr glaw. Mae ein carthffosydd wedi'u dylunio i ymdopi â stormydd sydd â chyfnod dychwelyd o hyd at 1 mewn 30 mlynedd, ond yn achlysurol gall y glaw fod mor drwm nes ei fod yn gorlwytho'r system. Pan fydd hynny'n digwydd, gall dŵr gwastraff orlifo o siambrau archwilio a gwlïau gan achosi llifogydd.





## Her 2: Llifoedd Gwaelodol Mawr

**Faint mae'r Garthffos yn ei Ddal**







Adeiladwyd ein carthffosydd amser maith yn ôl ac mae rhai ohonynt yn dechrau dangos eu hoed. Mewn rhai mannau, mae dŵr daear yn ffeindio'i ffordd i mewn i'r carthffosydd trwy uniadau neu graciau yn y pibellau. Gelwir hyn yn 'ymdreiddio'.

Mae mwy o ddŵr yn tueddu i ymdreiddio i'r carthffosydd ar ôl iddi fwrw glaw, pan fydd lefelau dŵr daear yn uwch. Mae'r dŵr ychwanegol hwn yn cymryd lle yn y garthffos gan olygu bod llai o le ar gael i gludo dŵr storm ac felly mae stormydd llai difrifol yn achosi gorlifiadau.

## Sut allwn ni leihau llifoedd mawr ar adegau prysur?

**Atal dŵr storm.**

Canfod cyfleoedd i atal dŵr o doeon a phalmantau rhag draenio i'r rhwydwaith cyfun.


**Darparu lle storio.**

Trwy greu mwy o le i storio dŵr bydd mwy o le yn y rhwydwaith ac felly gallwn arafu'r llifoedd a'u lleihau ar adegau prysur.

## Sut allwn ni leihau llifoedd gwaelodol mawr?

**Canfod Ymdreiddiad**

- Arolygon Llif
- Arolygon Teledu Cylch Cyfyng (Camera)



**Achosion Ymdreiddiad**

- Draenio tir
- Diffygion yn y garthffos ac mewn siambrau archwilio


**Atal Ymdreiddiad**

- Ail-leinio'r garthffos
- Newid y garthffos
- Adnewyddu siambrau archwilio
- Ailadeiladu siambrau archwilio

# Sut mae atal ymdreiddiad?

## Canfod yr ateb cywir

Mae dwy ffordd o drwsio carthffosydd:
- Dulliau heb gloddio
- Dulliau toriad agored



CYN WEDYN

Os oes modd, mae dulliau heb gloddio yn well achos:
- Maent yn tarfu llai arnoch chi, ein cwsmeriaid
- Maent yn amharu llai ar yr amgylchedd am nad oes angen cloddio darn mawr o dir
- Mae llai o beryglon wrth wneud y gwaith nag sydd gyda gwaith cloddio agored


Os nad oes modd gwneud y gwaith heb gloddio ffos, defnyddir dulliau eraill, gwaith cloddio agored gan amlaf. Mae hyn yn golygu cloddio i lawr i wneud y gwaith trwsio. Rydym yn defnyddio'r dull hwn os oes cyfyngiadau neu ddiffygion ar y garthffos sy'n golygu na allwn leinio pibell neu adfer siambr archwilio. Gallai hyn gynnwys:




Blociad sylweddol



Pibell wedi dymchwel



Troadau neu gwympau sydyn



Llawer o ddŵr yn ymdreiddio

## Dulliau heb gloddio


### Ail-leinio'r garthffos:

Gosodir tiwb ffabrig wedi'i fwydo mewn resin rhwng dwy siambr archwilio a'i chwythu i fyny fel ei fod yn cymryd siâp y garthffos. Yna, defnyddir golau uwchfioled i galedu'r ffabrig a chreu pibell garthffos newydd sydd wedi'i hamgáu'n llwyr.



### Adfer siambr archwilio:

Mae mewnsaethu resin a leinio siambrau archwilio trwy chwistrellu'n golygu bod pob twll, crac a nam yn cael ei orchuddio ac mae hynny'n atal dŵr glaw rhag cyrraedd y garthffos.



## Lluniau ail-leinio carthffos

1. Caiff y leinin ei baratoi oddi ar y safle. Yna ychwanegir y resin er mwyn mwydo'r ffabrig i gyd





2. Caiff y garthffos ei glanhau â dŵr dan wasgedd neu dorwyr robotig

3. Rhoddir y leinin i mewn yn y garthffos





4. Trên golau uwchfioled yn ysgogi'r resin ac yn caledu'r leinin


Image Credits: 1 – 3. Pipe Lining Technologies, Inc., 4. ITS PipeTech

# Manteision Adfer (Rhan 1)


## Mantais 1: Mwy o le yn y garthffos

Rhan 1 o'r cynllun yw trwsio'r rhwydwaith yn yr ardal i atal dŵr wyneb rhag ymdreiddio. Prif fantais y gwaith hwn yw'r ffaith bod llai o ddŵr wyneb yn y carthffosydd yn gadael mwy o le ar gyfer llifoedd storm ac felly y gall y carthffosydd ymdopi â stormydd mwy o faint heb orlifo. Mae pibellau â wynebau mwy llyfn yn golygu bod mwy o le ynddynt hefyd.

**Cynt**




**Wedyn**




## Mantais 2: Para'n hirach

Mantais arall yw y bydd y rhwydwaith yn para'n hirach ar ôl i'r carthffosydd a'r siambrau archwilio gael eu hail-leinio.

- Bydd y leinin yn atal gwreiddiau rhag treiddio i mewn
- Bydd llai o lif yn cyrraedd ein pympiau a'n gweithfeydd trin, gan olygu bod y costau gweithredu'n llai a'u bod yn para'n hirach






Image Credit: Cloud 9 Services Inc.

## Y Camau Nesaf



**Monitro'r llif**
Bydd hyn yn ein galluogi i weld effaith y gwaith adfer a wnaed ac i ddeall faint o lif sy'n cyrraedd i Langoed



**Dyluniad terfynol y dulliau storio**
Byddwn yn defnyddio data monitro'r llif a gwybodaeth arall i asesu faint o le y bydd arnom ei angen i storio dŵr er mwyn atal rhagor o lifogydd.

# Sut fyddwn ni'n cael rhagor o le i storio?


## Gosod carthffosydd mwy o faint

Ar ôl monitro'r llif, byddwn yn gallu gweld faint o le ychwanegol y bydd arnom ei angen. Lle bydd angen carthffosydd mwy o faint, byddwn yn gwneud gwaith cloddio agored, i lawr at y bibell, gan ei thynnu hi a rhoi pibell fwy o faint yn ei lle.
Byddwn yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod eiddo y mae'r gwaith yn effeithio arnynt yn cael eu hadfer i'r cyflwr yr oeddent ynddo cynt. Mae enghraifft o brosiect blaenorol i'w gweld isod.

## Enghraifft o waith blaenorol


Cyn y gwaith


Ar ôl y gwaith


Yn ystod y gwaith


Ar ôl y gwaith

## Tanc storio newydd

Roedd angen rhoi tanc storio newydd o dan y ddaear i ddal llif ychwanegol y dŵr yn ystod glaw trwm a'i ddal hyd nes bod y llifoedd yn llai a bod lle yn y rhwydwaith. Gellir gwneud tanciau fel hyn o blastig neu goncrit.



Uchod, dangosir y broses o osod tanc concrit wedi'i rag-gastio yn y Barri. Cymerodd ddeng niwrnod i adeiladu'r tanc.

## Tanciau Gaerwen

Pibellau plastig mawr mewn rhes yw'r tanc storio, fel y dangosir isod. Caiff y rhain eu cludo i'r safle ar lorïau. Mae'r tir wedi'i gloddio a'r pibellau wedi'u gosod. Cânt eu cysylltu â'i gilydd ac â'r rhwydwaith carthffosiaeth, a'u claddu. Mae'r darnau hyn o bibellau yn hawdd eu gosod ac felly mae'n ffordd ddibynadwy o atal llifogydd yn y dyfodol.





# Manteision rhagor o le i storio (Rhan 2)

## Manteision rhagor o le i storio

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mantais 1** | Lleihau perygl llifogydd pan geir glaw eithriadol o drwm mewn stormydd sydd â chyfnod dychwelyd o hyd at 1 mewn 30 mlynedd. |  |  |
| **Mantais 2** | Mae'n golygu na fydd angen cynyddu maint y rhwydwaith eto yn y dyfodol agos | Llai o angen atal dŵr wyneb lle nad yw'n gost-effeithiol |  |
| **Heriau** | Mae'r llifoedd yn dal i gyrraedd y gweithfeydd trin i gael eu trin yn y pen draw. Nid yw cost y driniaeth yn llai. | Cynllunio'r tanciau i'w glanhau eu hunain. | Cynllunio'r amser draenio er mwyn sicrhau bod lle storio ar gael pan fydd angen. |

## Llinell amser buddsoddi

- Rhan 1: Adeiladu'n dechrau – Hydref 2017
- Gwerthuso'r manteision – Ionawr i Ebrill 2018
- Penderfyniad ar yr angen am Ran 2 a maint y gwaith Ebrill 2018
- Digwyddiad cyhoeddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid Mai 2018
- Adeiladu Rhan 2 os bydd angen Tachwedd 2018